# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022

Amser: 09.01 - 09.38

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Lesley Griffiths AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth,<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol<br>Emma Alexander, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i’r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i’w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newid a ganlyn:

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau a Godir) (Cymru) 2022 (15 munud) *ail-drefnwyd i eitem 5*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 5.45pm.

Nododd y Rheolwyr Busnes lythyr a anfonwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar 12 Rhagfyr, ac yr annfonwyd copi ohono at y Pwyllgor Busnes, ynghylch dwy gyfres o Reoliadau y disgwylir iddynt gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn y prynhawn yma: Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022; a Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022.

Cydnabu’r Trefnydd y pryderon sydd wedi’u mynegi am y nifer o bwyntiau adrodd a godwyd ar y ddwy gyfres o Reoliadau. Byddai'n cwrdd â Chadeirydd y Pwyllgor

Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad cyn y Cyfarfod Llawn i drafod y mater hwn ymhellach a bydd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Busnes yn dilyn y cyfarfod hwnnw.

Cafodd y Rheolwyr Busnes eu hatgoffa gan y Llywydd bod 90 munud wedi'i ddyrannu i'r datganiad heddiw ar y gyllideb ddrafft a bydd ar ffurf dadl, yn unol â'r arfer ers 2017. Ni fydd pleidlais.

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr ychwanegiadau a ganlyn:

**Dydd Mawrth 10 Ionawr 2023**

- Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Pwysau'r Gaeaf ar y GIG (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Costau Byw (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Amrywiaeth mewn Democratiaeth – Canlyniadau'r Arolwg (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Bioamrywiaeth (30 munud)

**Dydd Mawrth 17 Ionawr 2023**

- Datganiad gan Weinidog yr Economi: Blaenoriaethau Economaidd a Chysylltiadau Llywodraeth y DU (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Diweddariad ar Wcráin (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (30 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) (45 munud)
- Dadl Ystyriaeth Gychwynnol ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) (45 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ychwanegiadau canlynol i'r amserlen:

Dydd Mercher 11 Ionawr 2023

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)

Dydd Mercher 25 Ionawr 2023

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Costau cynyddol: yr effaith ar ddiwylliant a chwaraeon (60 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch amserlen y Bil Bwyd (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwaith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru)

## 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad gan y Trefnydd a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Caffael, a osodwyd ar 6 Rhagfyr, at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Chyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 16 Chwefror 2023, a nodwyd fod disgwyl i Femorandwm atodol pellach gael ei osod cyn y Nadolig;
- cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) a osodwyd ar 6 Rhagfyr at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 13 Ionawr 2023; a
- chyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl) a osodwyd ar 8 Rhagfyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 16 Ionawr 2023. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ysgrifennu at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd i fynegi pryder ynghylch gosod y Memorandwm ar y Bil hwn yn hwyr, sydd wedi arwain at gyfnod o amser cyfyngedig iawn ar gael i bwyllgorau wneud gwaith craffu ar y darpariaethau perthnasol yn y Bil.

### 4.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ynghylch memoranda cydsyniad deddfwriaethol:

Trafododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch nifer y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a'r effaith ar waith pwyllgorau.

## 5 Diwygio'r Senedd

### 5.1 Costau a Rhagdybiaethau ar Ddiwygio'r Senedd: Gwybodaeth ddiwygiedig

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur ar nifer o ragdybiaethau a fydd yn sail i'r wybodaeth sydd i'w darparu gan Gomisiwn y Senedd i lywio gwaith Llywodraeth Cymru o ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Diwygio'r Senedd. Yn dilyn trafodaeth ynghylch y rhagdybiaethau o ran yr ystod ddisgwyliedig o bwyllgorau ychwanegol sy'n debygol o gael eu sefydlu gan Senedd y dyfodol a nifer yr wythnosau eistedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i nodi'r rhagdybiaethau o ran busnes y Senedd.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ystyried papur yn nodi’r amserlenni lefel uchel ar gyfer ei waith ei hun yn ymwneud â Diwygio'r Senedd dros weddill tymor y Senedd hon mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 6 Unrhyw Fater Arall

### Dadleuon 30 munud

Cododd y Llywydd y profiad diweddar o grwpiau'r gwrthbleidiau’n cyflwyno dau gynnig i'w trafod yn ystod amser y gwrthbleidiau yn y Cyfarfod Llawn, a all gyfyngu ar nifer a hyd cyfraniadau gan Aelodau ar bynciau o bwys. Nododd y Llywydd y bydd cais i'r Pwyllgor Busnes ystyried papur yn y Flwyddyn Newydd ynghylch yr amseru ar gyfer dadleuon 30 munud, yng nghyd-destun amserlennu busnes yn ehangach.